**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Chwefror 2019 |

## PWNC

Eitem 5:CAIS AM ADNODD TRAWSNEWID GWASANAETH I'R GWASANAETH PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD

## PENDERFYNIAD

Neilltuo £34,382 o Gronfa Cynllun y Cyngor i ariannu swydd swyddog trawsnewid am gyfnod penodol o flwyddyn yn yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd i gynnal adolygiad penodol er mwyn sicrhau fod gwasanaethau'r Adran yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithlon posib.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae disgwyliad fod adrannau yn gweithredu i sicrhau nad oes trefniadau diangen yn digwydd o fewn gwasanaethau a bod gweithdrefnau a thasgau yn digwydd yn y ffordd fwyaf effeithlon posib. Mae'r Adran yn credu fod angen adolygiad lawn a thrylwyr o'r holl ddyletswyddau a thasgau cysylltiedig ar draws y gwasanaeth er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau yn rhedeg yn effeithiol ac effeithlon.

Bwriad y gwaith fydd i arwain at sicrwydd fod y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn ymarfer yn y ffordd fwyaf effeithlon posib er budd pobl Gwynedd ac yn gweithredu unrhyw newidiadau fydd eu hangen er mwyn gwneud hynny.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Chwefror 2019 |

---

## PWNC

Eitem 6:CYNLLUN PRENTISIAETHAU - BID I'R GRONFA CYNLLUN Y CYNGOR

---

## PENDERFYNIAD

a) Cymeradwyo sefydlu cynllun prentisiaethau.

b) Ymrwymo £300,000 o'r Gronfa Cynllun y Cyngor er mwyn sefydlu cynllun prentisiaethau i gyflogi o leiaf 20 prentis newydd yn 2019.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae sefydlu cynllun prentisiaethau yn un o flaenoriaethau Cynllun arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2019/20. Mae'n hanfodol cysoni a gwella lefelau siliau yng Ngwynedd yn barhaus er mwyn gallu ymateb i heriau'r dyfodol, i sicrhau dyfodol positif a chadw pobl ifanc yn lleol. Mae'r cynlyn yn gyfle i'r Cyngor arwain y ffordd drwy gynnig prentisiaethau o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae anghenion cynllunio gweithlu'r Cyngor yn nodi fod angen 'cael y bobl gywir, gyda'r sgiliau cywir, yn y llefydd cywir ar yr amser cywir'. Bydd y cynllun yn ffordd effeithiol o ymateb i'r anghenion yma.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Chwefror 2019 |

## PWNC

Eitem 7:CAIS AM ADNODDAU CYNLLUN Y CYNGOR I DRAWSNEWID Y GYFUNDREFN ADDYSG

## PENDERFYNIAD

a) Ymrwymo £103,492 o Gronfa Cynllun y Cyngor am gyfnod o ddwy flynedd i ariannu swydd Rheolwr Prosiect a fyddai'n galluogi'r Adran i ymateb a gweithredu ar brosiectau unigol i drawsnewid y gyfundrefn ysgolion yn amserol ac fel maent yn codi ac yn unol â'r egwyddorion addysg mabwysiedig.

b) I adolygu'r sefyllfa pan ddaw'r ddwy flynedd gychwynnol i ben, a/neu os rhagwelir cynnydd yn nifer y prosiectau unigol pellach fydd angen eu gweithredu i drawsnewid y gyfundrefn ysgolion yn sgil mabwysiadu'r egwyddorion addysg.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ar y 18 Rhagfyr mabwysiadodd y Cabinet Egwyddorion Addysg newydd a fydd yn sail i wireddu gweledigaeth yr Adran ac i ddatblygu cyfundrefn a fydd yn sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Bydd yr adran yn mynd ati i draws newid y gyfundrefn drwy ddwy elfen cwbl wahanol. Y cyntaf, ac amlycaf, yw'r Rhaglen Ysgolion G21, sef rhaglen gyfalaf Band A a Band B. Yr ail yw cyfleodd o brosiectau di-gyfalaf o dan arweiniad y Swyddogion Addysg Ardal. Er mwyn sicrhau fod yr adran yn gallu gweithredu a gwireddu'r prosiectau bydd angen ychwanegu adnodd ychwanegol o swydd Rheolwr Prosiect.

Oni bai y ceir yr adnodd bydd her gynyddol i barhau i gynnal y gyfundrefn anghynaladwy, gydag anghyfartaledd yn y cyfleoedd a'r profiadau y bydd pobl ifanc a phlant Gwynedd yn ei gael i wireddu eu potensial.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Chwefror 2019 |

---

## PWNC

Eitem 8:CYLLIDEB REFENIW 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

---

## PENDERFYNIAD

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2018 o'r Gyllideb Refeniw, a nodi y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

- Gofyn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant, ynghyd â'r Pennaeth Adran, i fynd at wraidd gorwariant y gwasanaeth Darparu a chymryd camau i leihau'r gorwariant, ac i adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

- Oherwydd cynnydd yn y gorwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan yr Adran Plant a Theuluoedd ers yr adolygiad diwethaf, i ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad perfformiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19) gyda golwg ar geisio lleihau'r gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- Oherwydd lefel y gorwariant ar gludiant disgyblion gan yr Adran Addysg, i ystyried y sefyllfa pan dderbynnir adroddiad yr Aelod Cabinet (Cabinet 29/01/19).

- Caniatáu'r Adran Amgylchedd i neilltuo (£60k) o danwariant yr adran ar gyfer cynnal adolygiad gan gomisiynu ymchwil gan y Brifysgol a chyflogi swyddogion ychwanegol i gasglu tystiolaeth yn y maes Cludiant Cyhoeddus yn dilyn nifer o faterion dros y blynyddoedd diwethaf.

- Cynaeafu (£2,984k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol,
  - gyda (£700k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor i'w neilltuo i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
  - (£435k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i'w drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
  - gyda'r gweddill sef (£1,849k) i'w drosglwyddo i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

---

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Chwefror 2019 |

---

**PWNC**

Eitem 9:RHAGLEN CYFALAF 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £9,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- £3,502,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £30,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £488,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- £220,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Chwefror 2019 |

## PWNC

Eitem 10:TROSOLWG ARBEDION 2018/19 - ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

## PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad a nodi’r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn strategaeth ariannol y Cyngor ers 2015/16, mae gwerth £27m o arbedion wedi eu cymeradwyo i’w gwireddu yn ystod y cyfnod 2015/16 i 2018/19.

Mae gwireddu’r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o’r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy’n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y bo’r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o’r darlun cyfan.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Chwefror 2019 |

**PWNC**

Eitem 11:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH CORFFORAETHOL

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, a gadarnhawyd nad oedd dim i'w ychwanegu.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Chwefror 2019 |

---

**PWNC**

Eitem 12:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AEOD CABINET DROS DDATBYLGU'R ECONOMI

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, a gadarnhawyd nad oedd dim i'w ychwanegu.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 22 Ionawr 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 6 Chwefror 2019 |

**PWNC**

Eitem 13:ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, a gadarnhawyd nad oedd dim i'w ychwanegu.